

Digwyddiad Paratoi Canolfannau

# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

City & Guilds | wjec cbac

Chwefror 2020

# Agenda

| Bore | | Prynhawn | |
|---|---|---|---|
| 1000 | Croeso a Chyflwyniadau | 1300 | Sesiwn y prynhawn yn cychwyn |
| | Trosolwg o Lefel 4 | | Trosolwg o Lefel 5 |
| | Cynnwys yr Uned ac adnoddau | | Cynnwys yr Uned ac adnoddau |
| 1100 | Egwyl | 1430 | Egwyl |
| | Trosolwg o'r dull Asesu | | Trosolwg o'r dull Asesu |
| | Cwestiwn ac Ateb | | Cwestiwn ac Ateb a gwerthusiad |
| 1230 | Cinio | 1630 | Diwedd |

Cynrychiolwyr ac arbenigwyr pwnc o City & Guilds, gyda chefnogaeth cydweithwyr o CBAC fydd yn cefnogi ac yn hwyluso'r digwyddiad hwn.

City & Guilds
**Suzi Gray**
Ymgynghorydd Technegol
City & Guilds /
Technical Adviser City & Guilds

Mae City & Guilds a CBAC yn parhau i gydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyrff canlynol fydd hefyd yn cyfrannu at y digwyddiad hwn:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru

# Nodau ac Amcanion

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth i staff canolfannau ynghylch y gofynion cyflwyno sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer newydd. Cynlluniwyd y ddau i ddatblygu arweinwyr a rheolwyr ar gyfer y presennol a'r dyfodol yn y sector

Ein hamcan ar gyfer y digwyddiad hwn yw sicrhau y gall darparwyr archwilio a thrafod y canlynol:

- Ein dogfennau a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd, gan gynnwys ennill cymeradwyaeth canolfannau
- Strwythurau a chynnwys y cymhwyster
- Y strategaeth asesu
- Ein disgwyliadau o ran sicrhau ansawdd yn fewnol ac yn allanol

Heddiw byddwn yn canolbwyntio ar y cymwysterau canlynol:

Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel 5 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

# Y gyfres o gymwysterau

## Lefel 5

- Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)
- Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)

## Lefel 4

- 3 x Rôl Cymwysterau Penodol yn: Lefel 4 Ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol; Lefel 4 lleoli oedolion / cysylltu bywydau; Lefel 4 Eiriolaeth annibynnol **Yn fyw erbyn: Medi 20**
- Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a gofal cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)
- Paratoi i Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)
- Paratoi i Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)
- Ymarfer Proffesiynol mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant **Yn fyw erbyn: Medi 20** (City & Guilds)

## Lefel 3

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc) **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)
- Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 20** (WJEC CBAC)
- TAG Uwch a TAG Uwch Gyfrannol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 20** (WJEC CBAC)
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 20** (WJEC CBAC)
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)

## Lefel 2

- Ichyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion) **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau **Yn fyw: Medi 19** (WJEC CBAC)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd * **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant **Yn fyw: Medi 19** (WJEC CBAC)
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori **Yn fyw: Medi 19** (WJEC CBAC)
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd * **Yn fyw: Medi 19** (WJEC CBAC)
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer **Yn fyw: Medi 19** (City & Guilds)

**Allwedd**

- Seiliedig ar ymarfer (glas)
- Seiliedig ar wybodaeth (gwyrdd)

*Argymhellir sefyll y cymhwyster Craidd cyn neu ar yr un pryd â Lefel 2 neu Lefel 3

- City & Guilds: Cynigir gan City & Guilds
- WJEC CBAC: Cynigir gan CBAC

# Sut ydw i'n cael cymhwyster wedi'i gymeradwyo?

Derbyn y cais gan HCLW, ei gwblhau a'r gyflwyno

Tystiolaeth o staff cyflwyno a chymhwysedd aseswyr, yn amodol ar fonitro a chydymffurfiaeth parhaus

Tystiolaeth o fodloni disgwyliadau a nodir yn:

Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC

Llawlyfr Canolfannau City & Guilds

Ein Gofynion Sicrhau Ansawdd

Ni ystyrir bod canolfannau wedi'u cymeradwyo nes i ni gadarnhau hyn yn ysgrifenedig

4 canlyniad posibl i'r broses gymeradwyo

- **Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyste**
- **Cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu**
- **Ymatal rhag cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar gynllun gweithredu**
- **Gwrthod cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster**

# Sut ydw i'n cofrestru ac yn ardystio dysgwyr?


## Cofrestru ac ardystio

Mae dysgwyr yn cael eu cofrestru a'u hardystio drwy ein system gofrestru ac ardystio ar y we a elwir yn Ardd Furiog. Mae system Gardd Furiog City & Guilds yn galluogi canolfannau i gyflwyno cofrestriadau drwy gydol y flwyddyn, h.y. gellir cofrestru unrhyw bryd ac mewn unrhyw nifer drwy gydol y flwyddyn galendr.

I gael rhagor o wybodaeth am y broses gofrestru ac ardystio, gweler y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y consortiwm yn **www.dysguiechydagofal.cymru.**

## Gardd Furiog (Walled Garden) – cymorth ac arweiniad

https://www.cityandguilds.com/what-we-offer/centres/working-with-us/walled-garden





# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

# Ffeithiau Cyflym

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

- Dysgwyr a gyflogir yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n bwriadu symud ymlaen i weithio fel rheolwyr.
- Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer pobl sy'n gweithio am dâl neu'n ddi-dâl, neu sydd â mynediad at leoliad gwaith

## Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

- Nod y cymhwyster hwn yw paratoi'r dysgwyr ar gyfer rôl rheoli, drwy feithrin y wybodaeth ofynnol sy'n sail i arwain a rheoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

- Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i symud ymlaen yn eu gwaith ac i ddysgu pellach drwy'r cymhwyster canlynol:
  - Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

## Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster?

- Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cyfyngiadau o ran oedran

- Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai dan 18 oed.

## Cymeradwyaeth Canolfan

- Rhaid i ganolfannau geisio cymeradwyaeth ffurfiol gan y Corff Dyfarnu CYN cyflwyno'r cymhwyster hwn.
- Mae gwybodaeth am y broses Gymeradwyo a'r disgwyliadau ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: https://www.dysguiechydagofal.cymru/

## Oriau Dysgu dan Arweiniad

- Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sydd ei angen i gyflwyno'r cymhwyster a gellir defnyddio'r ffigur hwn at bwrpasau cynllunio.
- Lleiafswm yr oriau dysgu dan arweiniad sy'n ofynnol ar gyfer y cymhwyster hwn yw 335 awr.

## Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

- Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrwyd ar wahân) yn ogystal ag oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol, y gall rhai ohonynt fod yn y gweithle/lleoliad gwaith.
- Cyfanswm Amser Cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 600 awr

## Nodau ac amcanion

Bydd cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth yng nghyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn arbennig, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli;
- deall arddulliau arwain a rheoli gwahanol a'r ffordd y mae'r rhain yn dylanwadu ar ymarfer mewn gwasanaethau.
- deall sut i arwain dulliau person/plentyn-ganolog wrth ymarfer;
- gallu gweithio fel dysgwr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;
- gwybod sut i arwain, rheoli a gwella gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Nid yw'r Consortiwm yn pennu gofynion cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ddysgwyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'u bod yn cael y cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

**8040-09**

**Gwybodaeth yn unig**

# Asesu Cychwynnol a Sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir bod canolfannau yn darparu rhaglen sefydlu fel:

- bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.
- bod modd trafod â dysgwyr yr hyn y maen nhw'n gobeithio ei gyflawni drwy'r cymhwyster hwn; a byddai'n werth annog dysgwyr i gwblhau datganiad personol ar ddechrau'r rhaglen, gan eu cefnogi i ystyried eu nodau eu hunain o ran yr hyn y maen nhw'n gobeithio ei gyflawni drwy gwblhau'r rhaglen, a chanolbwyntio ar y rhain drwy gydol y broses gyflwyno.

**Asesiad cychwynnol a sefydlu cadarn, yn amodol ar IQA**

## Rhoi cyd-destun i'r cyflwyno

bydd dysgwyr yn ymateb i wybodaeth a dealltwriaeth newydd os yw'n berthnasol i'w cyd-destun cyflogaeth presennol, neu i brofiad gwaith blaenorol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol

## Ymgorffori cynnwys sylfaenol

Er enghraifft, yn ystod sesiwn gallwch wneud y canlynol:


- cyflwyno prif destun y sesiwn
- hwyluso trafodaeth lle mae'r dysgwyr yn archwilio eu dealltwriaeth a/neu wybodaeth bresennol.
- Caniatewch amser i ailymweld a chymathu mewn sesiynau yn y dyfodol

## Cadarnhad a her – myfyrio wrth ac ar ôl gweithredu

- A fydden nhw'n gwneud unrhyw beth yn wahanol?
- Pe baen nhw'n gallu newid un peth, beth fyddai hwnnw?
- A gawson nhw eu synnu gan unrhyw beth maen nhw wedi'i ddysgu?
- Beth maen nhw'n ei wybod nawr nad oedden nhw'n ei wybod o'r blaen?

# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion cyflwyno cyffredinol

Gall gwefan berthnasol, erthygl cyfnodolyn, pennod o lyfr ac ati gynnig lefel ychwanegol o her i atgyfnerthu eu dysgu ymhellach. Mae'r unedau'n cynnwys cysylltau ag amrywiaeth o adnoddau a dogfennau cyflwyno y gellir eu defnyddio i gefnogi'r broses gyflwyno yn ogystal ag ategu datblygiad y dysgwr ei hun y tu hwnt i'r broses dan arweiniad o gyflwyno'r cynnwys.




Dylid hefyd ystyried yr arddulliau dysgu gwahanol, a'r amrywiaeth o wybodaeth, dealltwriaeth a chefndiroedd y mae dysgwyr mewn carfan yn eu cynnig i sesiynau grŵp, a dylen nhw weld gwerth annog dysgwyr i archwilio'r themâu a'r testunau gwahanol gyda'i gilydd, gan ddefnyddio eu cyfoeth o brofiadau o amrywiaeth o leoliadau i'w helpu i feithrin eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth eu hunain

Gall y cyd-destun hwn fod yn gyflogaeth bresennol neu flaenorol y dysgwyr eu hunain neu'n **astudiaeth achos niwtral sy'n gysylltiedig â'r sector iechyd a gofal cymdeithasol**, a ddyfeisiwyd gan y tiwtor (bydd defnyddio cyd-destun ffuglennol yn aml yn gwneud y myfyrwyr yn llai amddiffynnol am eu lleoliad eu hunain). Mae'n bwysig deall bod y dysgwyr yn cymryd perchenogaeth dros y wybodaeth maen nhw'n ei meithrin drwy ddeall ei pherthnasedd i ymarfer.

# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cyflwyno Dilyniannol

Cynghorir canolfannau i gyflwyno cynnwys y cymhwyster hwn gan ddilyn trefn yr unedau a gyflwynir yn y llawlyfr hwn. Mae hyn yn adlewyrchu trefn resymegol y broses o gyflwyno'r cynnwys yn ogystal â threfn ddisgwyliedig y broses o gyflwyno'r tasgau asesu.

**Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau o ymarfer person-ganolog/plentyn-ganolog**

Uned 410

115 ODA/ 22 Credyd

9 Deilliant Dysgu

**Nod yr Uned:**

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, modelau a fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer ymarfer person/plentyn-ganolog.

Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc

**Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Uned 411

120 ODA/ 20 Credyd

6 Deilliant Dysgu

**Nod yr Uned:**

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i fframweithiau damcaniaethol a fframweithiau rheoleiddio a'r ffordd y mae'r rhain yn cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.

Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolion' yn cyfeirio at oedolion a/neu blant a phobl ifanc

**Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Uned 412

100 ODA/ 18 Credyd

7 Deilliant Dysgu

**Nod yr Uned:**

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwr i ddamcaniaethau, fframweithiau a dulliau o ysgogi a datblygu timau i gefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog.

**Canllawiau Cyflwyno Manwl**

**Adnoddau cyflwyno pwrpasol ar gael**


**Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru a ddatblygodd gynnwys unedau'r cymhwyster hwn ac sy'n berchen arno.**

# Gosodiadau

Yn y cymhwyster mae rhai geiriau neu ymadroddion wedi'u dangos mewn print **bras** yn y meini prawf asesu. Arwydd yw hyn bod amrediad wedi'i ddarparu a bydd wedi'i ddangos ar waelod y deilliant dysgu.

Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol.

Mae'n **RHAID** cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond **nid oes disgwyl** arsylwi holl elfennau'r amrediad fel rhan o'r broses asesu; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai **dyfarniad cyfannol yw'r dyfarniad asesu**, a'i fod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu



**Unit 410** **Legislation, theories and models of person/child-centred practice**

| | |
|---|---|
| **Level:** | 4 |
| **GLH:** | 115 |
| **Credit:** | 22 |
| **Unit Summary:** | The aim of this unit is to introduce the learner to theories, models and legislative frameworks for person/child-centred practice.<br>In the context of this unit the term 'individuals' relates to adults and/or children and young people |

Learning outcome:

1. Understand the importance of respect for uniqueness, equality and diversity

Assessment criteria

You understand:

1.1 Legislation and policy that support equality and diversity

1.2 The impact of stereotyping, prejudice, discrimination and hate crime on well-being

Learning outcome:

2. Understand the use of a rights-based approach for the assessment of need and risk

Assessment criteria

You understand:

2.1 How legislation, conventions and principles support person/child-centred practice in health and social care

2.2 How regard for **rights and liberty** can be balanced with risk

Range

**Rights and liberty** - a human rights approach (to promote person/child-centred practice and assessment of need and risk, including what matters to individuals)

Learning outcome:

3. Understand the role of inclusive assessments of individual need in health and social care



# Gweithgaredd 1: Adolygu cynnwys yr uned



# Egwyl te/coffi



# Staff Canolfannau a rolau allanol

# Staff canolfannau

## Y gofynion ar gyfer aseswyr mewnol

Rhaid i aseswyr y cymhwyster hwn fod yn wybodus yn alwedigaethol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r aseswyr feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys yr uned y maen nhw'n ei hasesu.

Hefyd, rhaid iddyn nhw feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atyn nhw:

- y Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **ac yn**
- cynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau y maen nhw yn eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith. Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

## Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
    - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu neu
    - Lefel 4 Dystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
    - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster sicrhau ansawdd mewnol, dylai fod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig neu dylai feddu ar gymhwyster addysgu cydnabyddedig a phrofiad amlwg o wneud gwaith sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer cymwysterau seiliedig ar wybodaeth.

### Y cyd-destun Cymreig

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

**Datblygiad proffesiynol parhaus** Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

# Gofynion i staff canolfannau:
# Datblygu Proffesiynol Parhaus

Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth yn parhau'n gyfredol yn y maes galwedigaethol ac o ran arfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd a'i bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

**Dylech ddiweddaru eich CV a'ch cofnod DPP i adlewyrchu'r cymwysterau hyn**

**Dangoswch eich bod yn asesu yn unol â TAQA**

https://www.cityandguilds.com/qualifications-and-apprenticeships/learning/training-and-development/6317-assessment-and-quality-assurance#tab=information

# Staffio Canolfannau a rolau allanol

| ROLAU | Cwmpas a swyddogaeth |
|---|---|
| **Tiwtor** | darparu gwybodaeth a dealltwriaeth o gynnwys y cymhwyster. Gall y tiwtor hwyluso'r broses asesu |
| **Aseswr Mewnol** | aseswr cymwysedig – bydd yr aseswr mewnol yn gyfrifol am bennu canlyniad y tasgau yn Adran 1 ac Adran 3 gan ddefnyddio meini prawf llwyddo a osodwyd yn allanol. |
| **Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** | sicrhau bod y broses o asesu tystiolaeth o ansawdd cyson a phriodol. |
| **Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol** | yn gyfrifol am gadarnhau bod y gwaith o gynllunio, cyflwyno ac asesu'r tasgau a asesir yn fewnol wedi'i wneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau City & Guilds. |
| **Aseswr Allanol City & Guilds*** | aseswr cymwysedig, sy'n gyfrifol am bennu'r dyfarniad asesu terfynol ar gyfer tasgau asesu Adran 2, sy'n ymdrin ag uned 411. |
| **Aseswr Arweiniol City & Guilds*** | bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniad asesu a bennir gan aseswyr allanol. |

* Rolau newydd yw'r rhain, a benodir gan City & Guilds



# Y broses asesu

## Crynodeb o'r dulliau asesu

Ar gyfer yr asesiad allanol rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- Project sy'n cynnwys adroddiad ysgrifenedig, cyflwyniad a thrafodaeth sy'n seiliedig ar newid arfaethedig i ymarfer

Ar gyfer yr asesiad mewnol, rhaid i ddysgwyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- Cyfres o dasgau, sy'n cynnwys ymatebion llafar ac ysgrifenedig

Gellir llwytho pecyn asesu i lawr sy'n nodi gofynion pob asesiad o wefan y Consortiwm.

## Dyfarnu'r cymhwyster

Asesir y cymhwyster drwy gyfres o dasgau a osodir yn allanol.

Asesir **Adran 1** (Tasgau A-C) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir **Adran 2** (Tasg Ch) gan aseswr allanol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Asesir Adran 3 (Tasgau D – E) yn fewnol. Dyfernir gradd llwyddo ar gyfer yr uned os bydd pob tasg yn cael ei chwblhau'n llwyddiannus.

Bydd yr aseswyr perthnasol yn cyflwyno'r tair gradd asesu i City & Guilds, a fydd yn dyfarnu gradd cymhwyster gyffredinol os cyflawnir pob un o'r tair uned yn llwyddiannus.

**DIM cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gellir ail-gyflwyno/ ail-wneud; llwybr archwilio clir yn ofynnol (t14)**

**Proses glir y gellir ei harchwilio yn ofynnol i bennu'r 'parodrwydd i asesu'**

**Meini prawf llwyddo wedi'u cynnwys yn y pecyn asesu**

**Amodau Rheoledig – Proses VARCS ar waith**

**Rhaid llofnodi'r Ffurflen Ddatganiad yn rhan o'r gofyniad cyflwyno**

# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Asesu fesul Uned

**Pecynnau cymorth wedi'u darparu; fersiynau amrywiol i gefnogi'r broses ailsefyll – gweler t15**

| Uned | Teitl | Tasg | Gweithgaredd | Asesu | Adolygu'r dystiolaeth a'r graddau |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 410 | Deddfwriaeth, damcaniaethau a modelau o ymarfer person-ganolog / plentyn-ganolog | Tasgau A<br>Tasg B<br>Tasg C | Ymateb ysgrifenedig*<br>Ymateb ysgrifenedig*<br>Asesiad llafar (60 munud yn annibynnol + 30 munud o drafodaeth) | Asesu mewnol, cymedroli allanol | Defnyddio'r meini prawf LLWYDDO a ddarperir<br>Ffurflen Crynodeb o'r Asesiad (Atodiad 2)<br>Ffurflen Adborth (Atodiad 3) |
| Uned 411 | Fframweithiau damcaniaethol ar gyfer arwain a rheoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol | Tasg Ch<br>Rhan (i)<br>Rhan (ii) | Adroddiad ar newid i ymarfer<br>Cyflwyno adroddiad ar newid i ymarfer (15 munud), a thrafodaeth (5-10 munud) | Asesu'n allanol; Ar leoliad neu asesu o bell wedi'i ystyried (t18) | Aseswr Allanol i lenwi'r Ffurflen gofnodi asesiad allanol (Atodiad 1)<br>Defnyddio'r meini prawf LLWYDDO a ddarperir |
| Uned 412 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol yn y maes gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | Tasg D<br>Tasg Dd<br>Tasg E | Ymateb ysgrifenedig*<br>Asesiad llafar (60 munud yn annibynnol + 30 munud o drafodaeth)<br>Ymateb ysgrifenedig* | Asesu mewnol, cymedroli allanol | Defnyddio'r meini prawf LLWYDDO a ddarperir<br>Ffurflen Crynodeb o'r Asesiad (Atodiad 2)<br>Ffurflen Adborth (Atodiad 3) |

**Dylid rhyddhau tasgau yn raddol NID pob un ar unwaith, o leiaf 2 wythnos o gyfnod cyflwyno; amserlen glir y cytunwyd arni heb orgyffwrdd ag unrhyw dasgau enghreifftiol a ddarperir (t13)**

**Defnyddio adnoddau a chyfeiriadau allanol – darparwyd canllawiau clir ar gyfeirio yn y pecyn asesu**

*Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod eu gwaith yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen

# Cefnogi'r broses asesu

## Adnoddau

Ar gyfer y tasgau asesu sy'n gofyn am ymatebion ysgrifenedig, disgwylir bod gan yr ymgeisydd fynediad i offer TG a'r rhyngrwyd, fel y bo'n briodol er mwyn cwblhau'r tasgau. Disgwylir i ymgeiswyr gynhyrchu ymatebion wedi'u teipio ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig.

**Ar gyfer Tasg Ch(ii), mae'r ganolfan yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd a chyfleusterau priodol a fydd yn galluogi dysgwyr i ddarparu cyflwyniad ar ffurf ystafell fwrdd neu gyflwyniad PowerPoint.**

(Disgrifir fformat ystafell fwrdd fel sefyllfa lle y byddai'r aseswr yn eistedd wrth fwrdd gyda'r ymgeisydd yn rhoi cyflwyniad o flaen yr ystafell, wrth ymyl yr offer arddangos.)

## Cefnogaeth ac adborth

Gall tiwtoriaid/aseswyr mewnol roi arweiniad i'r ymgeiswyr o ran y dystiolaeth sy'n ofynnol drwy gefnogi mynediad i'r tasgau.

Dylai'r tiwtor/aseswr sicrhau bod yr ymgeisydd yn deall yr hyn y mae angen iddo ei wneud ac erbyn pryd, a bod angen iddo ychwanegu esboniadau sy'n dangos dealltwriaeth yn ei waith ysgrifenedig.

Fodd bynnag, dylid sicrhau **nad yw'r ymgeisydd yn cael ei arwain, nac yn cael gwybod beth i'w wneud, mewn ffordd sy'n ei atal rhag gallu dangos ei broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymhwyso ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth yn annibynnol.**

Bydd angen i'r aseswr/tiwtor mewnol gysylltu ag aseswr allanol City & Guilds ar yr adegau canlynol yn y broses asesu:

TASG Ch (i) wedi'i chwblhau ynghyd â 'ffurflen datganiad dilysrwydd' (Atodiad 4)

Bydd yr aseswr/tiwtor mewnol yn cyflwyno tystiolaeth ymgeiswyr ar gyfer Tasg Ch (i) gyda ffurflen datganiad

Bydd yr aseswr/tiwtor mewnol yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyflwyniad – Tasg Ch(ii) gyda City & Guilds a'r aseswr allanol.

Rhaid i unrhyw dystiolaeth a gyflwynir i'w hasesu gael ei chyflwyno fel a ganlyn:

- Rhaid bod pennyn ar bob tudalen o dystiolaeth ,sy'n cynnwys enw a llofnod/e-lofnod yr ymgeisydd ynghyd â'r dyddiad y cynhyrchwyd y dystiolaeth.
- Rhaid sicrhau bod cyfeiriadau clir fel bod modd croesgyfeirio pob darn o dystiolaeth â'r ffurflen cwblhau tystiolaeth.

# Asesiad Allanol – Tasgau Ch (i) a (ii)

**Trosolwg o'r Asesiad Allanol**

Mae angen i'r aseswr allanol gwblhau'r gweithgareddau hyn fel rhan o'r broses asesu:

- Adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer Tasg (Ch(i)) gan ddefnyddio'r meini prawf llwyddo sy'n cael eu darparu
- Paratoi a chynllunio cwestiynau a phwyntiau trafod o ran adroddiad yr ymgeisydd (Tasg Ch(i)) i'w trafod ar ôl i'r ymgeisydd roi ei gyflwyniad (Tasg Ch(ii))
- Arsylwi'r cyflwyniad a chynnal y drafodaeth (wyneb yn wyneb neu o bell yn ôl y canllawiau)
- Defnyddio'r meini prawf llwyddo a ddarperir i bennu dyfarniad cyfannol ar gyfer y Tasgau yn Adran 2 (Tasgau Di-ii)
- Cyflwyno gradd ar gyfer yr asesiad allanol gan City & Guilds

- Bydd gan Aseswyr Allanol eu pecynnau asesu eu hunain i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch o ran rolau na chyfrifoldebau.

- Mae aseswyr allanol yn gyfrifol am ddarparu gradd gyfannol ar gyfer Tasgau Ch(i) a Ch(ii) sy'n ymdrin ag Uned 411 o'r cymhwyster gan ddefnyddio'r meini prawf LLWYDDO gyda phwyslais arbennig ar:
  - Y defnydd o ddamcaniaethau rheoli newid
  - Y ffordd y mae dealltwriaeth o newid yn cyd-fynd â fframweithiau deddfwriaethol/fframweithiau rheoleiddio
  - Y ffordd y mae'r gwaith o fesur canlyniadau ac adborth (gan gynnwys cwynion/pryderon) wedi dylanwadu ar y newid i ymarfer a nodwyd gan yr ymgeisydd
  - Heriau posibl a all godi drwy fabwysiadu newid
  - Dulliau o ymateb i heriau sy'n codi drwy fabwysiadu newid

# Sicrhau Ansawdd – Asesiadau Mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith i gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu mewnol a wneir gan staff canolfannau.

Bydd angen i ganolfannau ysgrifennu a rhoi ar waith strategaeth sicrhau ansawdd mewnol gadarn a gweithgaredd samplu yn unol â chanllawiau ansawdd City & Guilds a nodwyd yn 'Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC'

Bydd gwaith asesu mewnol yn destun monitro allanol er mwyn sicrhau cysondeb a dilysrwydd penderfyniadau asesu canolfannau.

Gweithgarwch monitro a dilysu allanol → Monitro a samplu ar sail risg gan swyddogion sicrhau ansawdd allanol → Postio adborth monitro yn ôl i'r ganolfan → Cynllun gweithredu ar gyfer newid – monitro cydymffurfiaeth

Os bydd diffyg cydymffurfio neu achosion pryder sylweddol yn dod i'r amlwg yn ystod y drefn fonitro allanol, bydd City & Guilds/CBAC yn gweithredu'n briodol.



# Gweithgaredd 2: Adolygu'r Pecyn Asesu

# Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Dilyniant

**Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gwybodaeth)**

Rhagofyniad

**Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (cymhwysedd)**

Yn dibynnu ar y rôl

**Uned 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (cymhwysedd)**

**Lefel 4 – cymwysterau 'arbenigol' (cymhwysedd)** (Eiriolaeth Annibynnol, Cysylltu Bywydau, Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol)

**Mae cynllun a disgwyliadau'r cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 yn galluogi cyfleoedd dilyniant fertigol a llorweddol**



Cwestiynau?



Cinio



# Lefel 5 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

## Ffeithiau Cyflym

### Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

- Y sawl mewn rôl arwain neu reoli yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (oedolion, a phlant a phobl ifanc)
- Dysgwyr mewn dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy eu gwaith

### Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

- Mae'n meithrin y wybodaeth, y ddealltwriaeth, yr ymddygiad a'r sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

### Pa gyfleoedd sydd ar gael i symud ymlaen?

- Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu cyfleoedd cyflogaeth neu i barhau ag astudiaethau pellach ar lefel uwch

### Gyda phwy y gwnaethom ddatblygu'r cymhwyster?

- Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â'r Consortiwm, yn ogystal â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr yn y gweithle o bob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cyfyngiadau o ran oedran

- Ni all y Consortiwm dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr dan 18 oed gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhai dan 18 oed.

## Cymeradwyaeth Canolfan

- Rhaid i ganolfannau geisio cymeradwyaeth ffurfiol gan y Corff Dyfarnu CYN cyflwyno'r cymhwyster hwn.
- Mae gwybodaeth am y broses Gymeradwyo a'r disgwyliadau ar gael ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru: https://www.dysguiechydagofal.cymru/

## Oriau Dysgu dan Arweiniad

- Mae Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODA) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o amser dysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sydd ei angen i gyflwyno'r cymhwyster a gellir defnyddio'r ffigur hwn at bwrpasau cynllunio.
- Y gofyniad sylfaenol o ran oriau dysgu dan arweiniad ar gyfer y cymhwyster hwn yw 395.

## Cyfanswm yr Amser Cymhwyso

- Cyfanswm yr Amser Cymhwyso (CAC) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y disgwylir i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (a restrwyd ar wahân) yn ogystal ag oriau a dreulir yn paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol, y gall rhai ohonynt fod yn y gweithle/lleoliad gwaith.

- Cyfanswm Amser Cymhwyso'r cymhwyster hwn yw 1200 awr

# Lefel 5 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Nodau ac amcanion

Bydd y cymhwyster Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn arbennig, dylai dysgwyr allu dangos eu bod yn:

- deall amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli ac yn eu rhoi ar waith;
- myfyrio ar eu harddulliau arwain a rheoli eu hunain ac eraill a deall sut mae hyn yn effeithio ar y rheini y maent yn gweithio gyda nhw, yn y lleoliad a'r tu allan i'r lleoliad;
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella perfformiad mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol;
- arwain a rheoli dulliau gweithredu person/plentyn-ganolog wrth ymarfer;
- arwain a rheoli trefniadau ar gyfer gwella gwasanaethau a ddarperir yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol;
- gweithio fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, a meddwl yn feirniadol a myfyriol er mwyn llunio barn hyddysg sy'n cynnwys defnyddio a dehongli data;
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel y bo'n briodol yn eu rôl.

## Gofynion cofrestru dysgwyr

Rhaid bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r cymhwyster canlynol neu gymhwyster cymaradwy y cytunwyd arno cyn cofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn.

**8040-09 Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Cyfrifoldeb y ganolfan, fel rhan o'r trefniadau ar gyfer sefydlu dysgwyr i'r rhaglen, yw cadarnhau bod yr holl feysydd gwybodaeth wedi'u cwmpasu'n ddigon manwl, a bod y dysgwr yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol i symud ymlaen i raglen Lefel 5.

Nid yw City & Guilds yn pennu unrhyw ofynion cofrestru ychwanegol ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, rhaid i ganolfannau sicrhau bod gan ymgeiswyr y potensial i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus, a'r cyfle i wneud hynny.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy'r Ardd Furiog (Walled Garden) – gweler gwefan y Consortiwm am ragor o fanylion.

**8040-10**

**Cymhwysedd**

***Cymwysterau cymaradwy y cytunwyd arnynt:** Dyfarniad Camu Ymlaen i Reoli (Prifysgol De Cymru)

# Asesu Cychwynnol a Sefydlu

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn dechrau ei raglen er mwyn nodi:

- p'un a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion penodol o ran hyfforddiant,
- unrhyw gefnogaeth ac arweiniad y gall fod ei angen arno wrth weithio tuag at ennill y cymhwyster,
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Argymhellir y dylai canolfannau gynnig rhaglen sefydlu fel bod y dysgwr yn deall gofynion y cymhwyster, ei gyfrifoldebau fel dysgwr, a chyfrifoldebau'r ganolfan yn llawn. Gall y wybodaeth hon gael ei chofnodi ar gontract dysgu.

Sylfaen:

Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Cynnwys unedau gorfodol (520 – 526) wedi'i gynllunio i adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd

Mae'n ymgorffori'n gadarn y cysyniadau, y ddamcaniaeth a'r arweiniad a roddwyd ar Lefel 4, ac yn rhoi'r sgiliau a'r galluoedd ar waith yn Lefel 5.

Dylai'r rheini sy'n cyflwyno sicrhau bod y broses o gyflwyno Lefel 5 yn **adeiladu ar** gynnwys Lefel 4, ond nad yw'n ceisio ei ailadrodd yn ddiangen. Gall fod yn ddefnyddiol atgoffa neu ailbwysleisio elfennau penodol o'r cynnwys; ond dylai'r broses gyflwyno ganolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu sgiliau Lefel 5, gan ddeall bod yr ymgeiswyr eisoes yn meddu ar sail wybodaeth gadarn. **Darperir enghraifft ar t15 Llawlyfr y Cymhwyster**

# Adnoddau

Rhaid sicrhau bod gan yr ymgeiswyr amrywiaeth addas o adnoddau er mwyn cyflawni'r tasgau.

- **Adnoddau staff** – Mae angen i ymgeiswyr gael eu harsylwi yn rheoli pobl eraill fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn; dylai rheolwyr/cyflogwyr sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael cyfle, at ddibenion asesu, i ddefnyddio adnoddau staff fel y bo angen er mwyn gweithredu ei broject busnes. Dylid rhesymu a chytuno ar lefel ofynnol yr adnodd fel rhan o gymeradwyo cynllun y project busnes.

- **Amgylchedd** - Disgwylir i'r holl weithgareddau gael eu cyflawni fel sy'n digwydd mewn ymarfer gwaith arferol gan gynnwys y rhai a gyflawnir oddi ar y safle.

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Strwythur

## Strwythur

Er mwyn cyflawni'r cymhwyster **Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer**, rhaid i ddysgwyr ennill cyfanswm o 120 o gredydau o leiaf.

- Rhaid ennill 20 o gredydau o grŵp Gorfodol A*
- Rhaid ennill 70 o gredydau o grŵp Gorfodol B
- Rhaid ennill o leiaf 30 o gredydau o'r grŵp Dewisol .

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gorfodol A | | | |
| 520 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog | 60 | 20 |
| 521 | Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog drwy eiriolaeth annibynnol | 60 | 20 |
| Grŵp Gorfodol B | | | |
| 522 | Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol | 65 | 18 |
| 523 | Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol | 70 | 16 |
| 524 | Ymarfer proffesiynol | 50 | 12 |
| 525 | Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu diogelu unigolion | 60 | 12 |
| 526 | Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith | 60 | 12 |
| Grŵp Dewisol | | | |
| 527 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal | 45 | 31 |
| 528 | Arwain a rheoli'r ddarpariaeth gofal ar gyfer plant a phobl ifanc anabl | 50 | 30 |
| 529 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i leihau arferion cyfyngol drwy ddulliau cadarnhaol i gefnogi ymddygiad | 40 | 21 |

***Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn er mwyn arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ddewis uned 521 o Grŵp Gorfodol A. Dylai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster hwn ar gyfer pob gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol arall ddewis uned 520 o**

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Strwythur, parhad.

| Rhif yr Uned | Teitl yr Uned | ODA | Credydau |
|---|---|---|---|
| Grŵp Dewisol, parhad. | | | |
| 530 | Arwain a rheoli gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain | 40 | 19 |
| 531 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw mewn cartrefi gofal | 30 | 30 |
| 532 | Arwain a rheoli ymarfer mewn gofal dementia | 40 | 31 |
| 533 | Arwain a rheoli gwasanaethau i unigolion sy'n byw ag iechyd meddwl gwael | 40 | 31 |
| 534 | Arwain a rheoli'r gefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth | 40 | 34 |
| 535 | Arwain gwaith gydag unigolion sy'n colli'r synhwyrau | 50 | 20 |
| 536 | Arwain a rheoli gwaith yn ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau | 40 | 19 |
| 537 | Arwain gwaith yn ymwneud â gofal diwedd oes | 30 | 11 |
| 538 | Arwain a rheoli maes clinigol | 50 | 30 |
| 539 | Arwain a rheoli gwasanaethau lleoliadau oedolion/rhannu bywydau | 40 | 18 |
| 540 | Arwain a rheoli gwasanaethau eiriolaeth annibynnol | 20 | 24 |
| 541 | Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr | 20 | 11 |
| 542 | Arwain cefnogaeth i ofalwyr | 10 | 8 |
| 543 | Arwain a rheoli trefniadau gweithio rhyngbroffesiynol | 20 | 10 |
| 544 | Arwain gwaith gyda gwirfoddolwyr | 10 | 9 |
| 545 | Arwain a rheoli cynllunio a phrosesau busnes | 20 | 12 |
| 546 | Arwain a rheoli tîm therapi | 80 | 20 |
| 401 | Defnyddio asesiadau i ddatblygu cynlluniau personol | 35 | 6 |

Dim ond credydau ar gyfer un o'r canlynol y gall dysgwyr eu hennill:

- Uned 541 Arwain a rheoli gwaith gyda gofalwyr
- Uned 542 Arwain cefnogaeth i ofalwyr

Os bydd dysgwyr yn astudio'r ddwy uned fel rhan o'r cymhwyster hwn, dim ond credyd o un uned fydd yn cyfrif tuag at y cyfanswm credydau a gyflawnir.

Dylai dysgwyr ddewis unedau sy'n berthnasol i'w rôl ac i'r unigolion y maent yn gofalu amdanynt yn eu sefydliad/lleoliad.

# Gosodiadau

Yn y cymhwyster mae rhai geiriau neu ymadroddion wedi'u dangos mewn print **bras** yn y meini prawf asesu. Arwydd yw hyn bod amrediad wedi'i ddarparu a bydd wedi'i ddangos ar waelod y deilliant dysgu.

Mae'r wybodaeth yn yr amrediad yn trafod pa mor fanwl mae angen bod a faint o fanylion i'w cynnwys ar gyfer meini prawf asesu penodol.

Mae'n **RHAID** cyflwyno'r holl elfennau sy'n rhan o'r amrediad, ond nid oes disgwyl arsylwi holl elfennau'r amrediad fel rhan o'r broses asesu; mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai **dyfarniad cyfannol yw'r dyfarniad asesu**, a'i fod yn seiliedig ar lefel y deilliant dysgu

**Uned 526** Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

| | |
|---|---|
| **Lefel:** | 5 |
| **ODA:** | 60 |
| **Credyd:** | 12 |
| **Crynodeb o'r Uned:** | Diben yr uned hon yw helpu dysgwyr i feithrin eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau er mwyn arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith.<br>Yng nghyd-destun yr uned hon, mae'r term 'unigolyn' yn cyfeirio at oedolion a /neu blant a phobl ifanc |

Deilliant dysgu:

1. Deall gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol o ran iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

Meini prawf asesu

Rydych yn deall:

1.1 Gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol o ran iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

1.2 Eich cyfrifoldeb chi ac **eraill** dros iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

Ystod

**Eraill** Sefydliad (aelodau'r bwrdd, uwch reolwyr/unigolyn cyfrifol, gweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, unigolion/teuluoedd/gofalwyr)

Deilliant dysgu:

2. Monitro a chynnal cydymffurfiaeth â gofynion iechyd a diogelwch

Meini prawf asesu

Rydych yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n:

6

1.

2.

2.1 Sicrhau bod gweithwyr ac eraill yn ymwybodol o'r polisïau, y gweithdrefnau a'r arferion gwaith a chyfreithiol sydd eu hangen er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith



# Gweithgaredd 1: Adolygu cynnwys yr uned



# Egwyl te/coffi



# Staff Canolfannau a rolau allanol

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Staff canolfannau

## Y gofynion ar gyfer aseswyr mewnol

Ni fydd aseswyr mewnol yn llunio barn asesu sy'n cyfrif tuag at radd derfynol y cymhwyster, ond byddant yn cefnogi'r broses asesu drwy gefnogi'r broses o gytuno ar y project busnes a rhoi tystiolaeth drwy arsylwi a thystio. Rhaid i unigolion sy'n ymgymryd â'r rôl hon,

- fod yn gymwys yn alwedigaethol mewn swydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus
- cynnal eu cymhwysedd galwedigaethol drwy ddysgu a datblygu proffesiynol parhaus perthnasol y gellir eu dangos yn glir
- meddu ar y cymwysterau cyfredol ar gyfer Aseswyr, neu fod yn gweithio tuag at eu cyflawni, e.e.
  - Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith **neu**
  - meddu ar Ddyfarniad Aseswyr A1 neu unedau D32/33

Lle bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddynt ddangos eu bod yn gweithio'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall wrth helpu i asesu perfformiad yn y gwaith. **Rhaid cytuno ar hyn ymlaen llaw gyda Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol y ganolfan.**

Mae'r Consortiwm hefyd yn derbyn cymwysterau aseswr eraill a achredir yn genedlaethol. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r rhain ar dudalen we'r cymhwyster.

## Swyddogion sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i'r rheini sy'n cyflawni'r rôl sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus a meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd. Bydd swyddogion sicrhau ansawdd mewnol (IQA) yn gyfrifol am sicrhau bod y broses asesu a'r ffordd y caiff ei rhoi ar waith yn briodol, ac y caiff unrhyw dystiolaeth asesu a lunnir (e.e. tystiolaeth portffolio) ei dilysu.

Mae'r gofynion cymhwyso ar gyfer swyddog sicrhau ansawdd mewnol fel a ganlyn. Rhaid bod y swyddog sicrhau ansawdd mewnol:

- yn meddu ar y cymwysterau Sicrhau Ansawdd cyfredol, neu fod yn gweithio tuag at eu hennill, e.e.
  - Lefel 4 Dyfarniad ar gyfer Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu yn Fewnol neu
  - Lefel 4 Tystysgrif mewn Arwain Gwaith Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Ymarfer Asesu yn Fewnol neu
  - Feddu ar uned D34 neu Ddyfarniad Gwirwyr V1.

Lle bo swyddog sicrhau ansawdd mewnol yn gweithio tuag at ennill cymhwyster swyddog sicrhau ansawdd mewnol, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan swyddog sicrhau ansawdd mewnol cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.

**Y cyd-destun Cymreig**

O ran unigolion nad ydynt wedi ymgymryd â gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai meddu ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant, polisïau a chyd-destun Cymru yn fuddiol i'w cefnogi wrth ymgymryd â'u rolau.

**Datblygiad proffesiynol parhaus** Disgwylir i ganolfannau gynorthwyo eu staff i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u cymhwysedd yn y maes galwedigaethol o ran ymarfer gorau wrth gyflwyno, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd yn gyfredol a'u bod yn ystyried unrhyw ddatblygiadau cenedlaethol neu ddeddfwriaethol.

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Tyst Arbenigol



Lle y defnyddir tystion arbenigol i ddarparu tystiolaeth gefnogol fel rhan o'r portffolio, rhaid eu bod:

- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am yr unedau y byddant yn rhoi tystiolaeth ar eu cyfer
- yn alwedigaethol gymwys yn eu maes arbenigedd i'r un lefel o leiaf â'r uned y byddant yn rhoi tystiolaeth ar ei chyfer
- yn meddu naill ai ar gymhwyster asesu perfformiad yn y gweithle neu fod wedi gweithio mewn swydd broffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso ymarfer bob dydd staff.

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Aseswyr Allanol

**Mae aseswr allanol yn aseswr cymwys, wedi'i benodi gan City & Guilds, ac yn gyfrifol am ymgymryd â gwaith arsylwi uniongyrchol ar yr ymgeisydd yn ymarfer, ac am gynnal y drafodaeth broffesiynol. Bydd yr aseswr allanol yn adolygu'r holl dystiolaeth derfynol a gyflwynir ar gyfer y portffolio a'r project busnes ac yn llunio'r farn asesu derfynol ar gyfer yr**

Rhaid i aseswyr y cymhwyster hwn fod yn alwedigaethol gymwys – golyga hyn bod yn rhaid i bob aseswr allu cyflawni'r gofynion llawn yn yr unedau cymhwysedd y mae'n eu hasesu.

Ystyr cymhwysedd galwedigaethol yw eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus. Rhaid i aseswyr feddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth berthnasol, sydd o leiaf ar yr un lefel â chynnwys yr uned y maent yn ei hasesu.

Hefyd, rhaid iddyn nhw feddu ar y canlynol neu fod yn gweithio tuag atyn nhw:

- y Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol Gysylltiedig neu hen gymwysterau cyfatebol; **ac yn**
- cynnal eu gwybodaeth alwedigaethol drwy ddysgu a datblygiad proffesiynol parhaus y gellir eu dangos yn glir, sydd o leiaf ar yr un lefel â'r unedau y maen nhw yn eu hasesu.

Lle y bo gan aseswyr hen gymwysterau aseswr, rhaid iddyn nhw ddangos eu bod yn asesu'n unol â safonau asesu cyfredol neu gymhwyster cyfatebol/amgen addas arall ar gyfer asesu perfformiad yn y gwaith.

Lle y bo aseswr yn gweithio tuag at ennill cymwysterau aseswr, rhaid bod trefniant cydlofnodi ar waith gan aseswr cymwysedig o'r un maes galwedigaethol neu faes galwedigaethol cysylltiedig.



# Y broses asesu

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Rôl asesu ffurfiannol

**Asesiad cychwynnol cadarn a sefydlu, gan gynnwys cydnabod dysgu blaenorol – pob un yn ddibynnol ar IQA**

**Datblygu a chyfnerthu gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad a sgiliau**

Bydd dysgwyr yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd ar Lefel 4 ac yn datblygu cymwyseddau sy'n dangos sut y maent yn cymhwyso hyn i bob agwedd ar eu hymarfer

**Parodrwydd ar gyfer dyfarnu asesiad: o leiaf 2 arsylwad ar sail ymarfer gan asesiad mewnol**

Bydd yr arsylwadau hyn yn gweithredu fel **'porth'** ar gyfer derbyn bod yr ymgeisydd wedi'i baratoi'n briodol i roi cynnig ar yr asesiad crynodol.

**Canolbwyntio ar yr unedau gorfodol i roi tystiolaeth o hyder ymarferol**

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r deilliannau dysgu o fewn cynnwys yr uned orfodol i ategu cadarnhad o allu'r ymgeisydd i ddangos arfer yn y meysydd hyn*.

***Meysydd allweddol**

- Arwain a rheoli ymarfer person/plentyn-ganolog
- Arwain a rheoli perfformiad tîm effeithiol
- Arwain a rheoli ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol, rheoleiddiol a sefydliadol
- Ymarfer proffesiynol
- Arwain a rheoli ymarfer sy'n hybu diogelu unigolion
- Arwain a rheoli iechyd a diogelwch yn y lleoliad gwaith

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Dull Asesu

## Dull asesu

Bydd Cymhwyster Ymarfer: Lefel 5 Arwain a Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei asesu drwy gyfres o weithgareddau asesu.

- Bydd portffolio o dystiolaeth yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer deilliannau dysgu lle na fydd cyfleoedd ymarferol yn cael eu cyflwyno o bosibl drwy'r project busnes. Bydd hyn yn cynnwys meysydd o'r unedau gorfodol a dewisol.
- Bydd project busnes yn cael ei ddefnyddio i gasglu tystiolaeth asesu ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynnwys gorfodol, yn ogystal â'r unedau dewisol lle y bo hynny'n bosibl. Fel rhan o'r project, bydd angen i ymgeiswyr wneud y canlynol:
    - Nodi cyfle i weithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
    - Datblygu cynllun project ar gyfer gweithredu darpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig yn y sefydliad/lleoliad
    - Gweithredu'r ddarpariaeth/menter newydd neu ddiwygiedig
    - Gwerthuso canlyniad y broses weithredu.
- Penderfynir ar y dull asesu terfynol drwy werthusiad terfynol gan yr ymgeisydd o'i weithgareddau, ar ffurf **trafodaeth broffesiynol** a gynhelir gydag aseswr allanol.

## Cyflwyno gwaith

Mae angen ymatebion ysgrifenedig i gwblhau nifer o'r tasgau yn yr asesiad hwn.

Dylid cyflwyno ymatebion ysgrifenedig ar ffurf electronig, wedi'u teipio.

Dylech sicrhau bod eich gwaith yn daclus, h.y. defnyddiwch ffont safonol mewn maint darllenadwy (megis Times New Roman, neu ffont tebyg, maint 12), gofod dwbl a dylid sicrhau bod digon o le ar ymyl y dudalen.

**Ni chaniateir** defnyddio **asesiad ymarferol wedi'i efelychu** fel tystiolaeth ar gyfer y cymhwyster hwn. Gall sefyllfaoedd neu weithgareddau wedi'u hefelychu fod yn ddefnyddiol i ategu gweithgareddau asesu ffurfiannol, ond dylai tystiolaeth ar gyfer asesiad crynodol adlewyrchu'r ymarfer go iawn a wneir gan yr ymgeisydd.

## Cyfleoedd ailsefyll

Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran sawl gwaith y gall ymgeiswyr ailsefyll/ailgyflwyno tasgau y byddant wedi'u methu fel rhan o'r cymhwyster hwn.

# Crynodeb o’r Asesu

| Tasg Asesu | Hyd | Pwrpas | Unedau | Aseswr Mewnol/rôl y cyflogwr/asesiad | Gweithgaredd asesu | Canllawiau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tasg 1: Portffolio | Drwyddi draw | 'Dangos' tystiolaeth sy'n deillio o'r cyfnod asesu – CRYNODOL<br>Casglu tystiolaeth na chasglwyd yn ystod y project busnes. | Gorfodol a/neu ddewisol | Darparu cefnogaeth ac arweiniad | Asesir yn rhan o'r drafodaeth broffesiynol a fydd yn cael ei chynnal gyda'r Aseswr Allanol | Ffurflen cwblhau tystiolaeth: Mae atodiad 6 yn amlinellu cynnwys 'rhaid gwneud';<br>Rhaid cynnwys cynllun busnes |
| Tasg 2: Project Busnes<br><br>2a – Rhesymeg<br>2b – Cynllun<br>2c – Gweithredu<br>2ch – Gwerthuso | Tua 8-9 mis | Sut mae'r ymgeisydd:<br>• yn cefnogi, datblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion, a phrofiad yr unigolion hynny, yn eu sefydliad/lleoliad<br>• yn gweithio gyda phobl eraill ac yn eu rheoli yn y sefydliad/lleoliad er mwyn gweithredu'r project yn llwyddiannus. | Gorfodol a Dewisol | 2a – Cyfarfod cysyniad<br>2b – Cyfarfod cynllunio project<br>2c – o leiaf 2 arsylwad gan yr aseswr mewnol (t19)<br><br>Dylai'r swyddog sicrhau ansawdd hwyluso 'archwiliadau' rheolaidd yn ystod y cyfnod hwn; neu reolwr drwy oruchwyliaeth | 2a – rhesymeg; ffurflen cysyniad o'r cynnig<br>2b – Cynllun project Busnes wedi'i gwblhau; Ffurflen cymeradwyo project Busnes<br>2c – o leiaf 1 arsylwad gan aseswr allanol (**crynodol**);<br>Log myfyriol beirniadol<br>2ch – gwerthusiad cyffredinol o'r project busnes | 2a – Ffurflen cymeradwyo cysyniad ar gyfer cynllun busnes – Atodiad 3<br>2b – Templed cynllun project busnes (Atodiad 10)<br>2c – Ffurflenni Arsylwi Atodiad 5<br>2ch – rhaid cyfeirio at ffynonellau |
| Tasg 3: Trafodaeth Broffesiynol | Crynodol<br>Hyd at 75 munud | Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar yr hyn rydych wedi'i ddysgu a'r datblygiad sydd wedi mynd rhagddo fel rhan o'r cymhwyster. Caiff hyn ei ategu gan y gweithgareddau a'r gwaith a gwblhawyd gan yr ymgeisydd fel rhan o'u rhaglen ddysgu a'u hasesiadau | Gorfodol a Dewisol | Rhoi arweiniad ar fformat y drafodaeth a bydd yn helpu gyda gweithgareddau mentora er mwyn paratoi'r ymgeisydd ar gyfer cynnal y drafodaeth | Trafodaeth a arweiniwyd gan yr ymgeisydd gyda'r Aseswr Allanol.<br>Rhaid i'r ymgeisydd ymateb i'r pwyntiau trafod a'r cwestiynau yn annibynnol heb gymorth, a chydymffurfio â'r amodau perthnasol os yw'r asesiad yn cael ei gynnal o bell<br>Bydd unrhyw nodiadau paratoi y cyfeirir atyn nhw yn ystod y drafodaeth yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth | Cofnodir nodiadau trafod yr Aseswr Allanol ar y ffurflen cofnodi Trafodaeth Broffesiynol (Atodiad 7) |

**Taith asesu lawn 9-12 mis yn dibynnu ar gontract cyflogaeth t12**

# Asesiad mewnol – cymeradwyo project busnes

**Cymeradwyo cysyniad ar gyfer project busnes:**

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo cysyniad  project Busnes (Atodiad 3) i amlinellu ei sylwadau ar y pwyntiau uchod a gan City & Guilds mewn perthynas â'r rhesymeg a gyflwynir iddo. Yna, mae'n ofynnol iddynt ddarparu un o dri ymateb canlyniad i'r ymgeisydd:

- Y cysyniad ar gyfer project busnes wedi'i gymeradwyo
- Y cysyniad ar gyfer project busnes wedi'i gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau
- Ni chaiff y cysyniad ar gyfer y project busnes ei gymeradwyo

**Cymeradwyo project busnes:**

Dylai'r aseswr mewnol ddefnyddio'r ffurflen cymeradwyo project Busnes (Atodiad 4) i amlinellu ei sylwadau ar y pwyntiau a ddarperir gan City & Guilds mewn perthynas â'r cynllun project a gyflwynir iddo. Yna, mae'n ofynnol iddynt ddarparu un o dri ymateb i'r ymgeisydd:

- Project Busnes wedi'i gymeradwyo
- Project Busnes wedi'i gymeradwyo yn amodol ar ddiwygiadau
- Ni chaiff y project Busnes ei gymeradwyo

Edrychwch ar dudalen 17/18 y Pecyn Asesu

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer– Cytuno ar drefniadau asesu allanol ar gyfer arsylwi

Cynllun project Busnes wedi'i gytuno (Tasg 2b)

Cyflwyno i City & Guilds – nodi cyfleoedd yn ystod y cyfnod gweithredu pan fyddai'r Aseswr Allanol yn gallu arsylwi'r ymgeisydd yn ymarfer

Sicrhau bod cyfleoedd a nodwyd yn caniatáu i Aseswyr Allanol arsylwi o leiaf pedwar o'r pwyntiau canlynol

- Defnyddio amrywiaeth o gysyniadau, damcaniaethau a thechnegau arwain a rheoli wrth ymarfer
- Arwain a rheoli perfformiad staff
- Arwain a rheoli'r gwaith o hybu arferion person/plentyn-ganolog
- Arwain a rheoli arferion diogelu
- Arwain a rheoli arferion iechyd a diogelwch

# Lefel 5 Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Proses Gyflwyno

## Coladu a pharatoi tystiolaeth i'w chyflwyno – Tasg 1 a 2

Ffurflen cwblhau tystiolaeth (Atodiad 6) wedi'i llenwi gan yr ymgeisydd yn dangos sut y cafwyd tystiolaeth o'r holl Ddeilliannau Dysgu*

Datganiad Dilysrwydd wedi'i gwblhau

## Cyflwyno tystiolaeth ar gyfer yr asesiad terfynol

Aseswr Mewnol yn adolygu'r portffolio a'r deunyddiau asesu ar gyfer busnes y project

Aseswr Mewnol yn adolygu'r dystiolaeth ar gyfer Tasg 1 a 2 i farnu bod yr holl Ddeilliannau Dysgu wedi'u bodloni a bod y dogfennau asesu wedi'u coladu

## Adborth Ymgeisydd

Adborth wedi'i roi i'r ymgeisydd o fewn 2 wythnos i'w gyflwyno gan ddefnyddio'r ffurflen adborth (Atodiad 8)

Os na fodlonir y Deilliannau Dysgu ar ôl ailgyflwyno, dylai'r ganolfan:

1. Drefnu cefnogaeth ychwanegol**
2. Rhoi gwybod i'r ymgeisydd am ei hawl i apelio

## Cyflwyno i City & Guilds

Ar ôl cadarnhad fod holl ofynion yr asesiad mewnol wedi'u bodloni, dylid cyflwyno deunyddiau'r ymgeisydd

Rhaid cyflwyno tystiolaeth ar gyfer Tasg 1 a 2 o leiaf 3 wythnos cyn y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer y drafodaeth broffesiynol

*Rhaid i unrhyw dystiolaeth Tasgau 1 a 2 a gyflwynir i'w hasesu gael eu cyflwyno fel a ganlyn:

- Rhaid bod pennyn ar bob tudalen o dystiolaeth ,sy'n cynnwys enw a llofnod/e-lofnod yr ymgeisydd ynghyd â'r dyddiad y cynhyrchwyd y dystiolaeth.
- Rhaid sicrhau bod cyfeiriadau clir fel bod modd croesgyfeirio pob darn o dystiolaeth â'r ffurflen cwblhau tystiolaeth.

**Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gymorth ychwanegol a roddir i'r ymgeisydd

Bydd yr aseswr mewnol yn:

- Adolygu cysyniad a chynllun y project busnes o ran dichonoldeb ac yn sicrhau bod y cyfle yn cynnig digon o dystiolaeth i fodloni'r gofynion asesu. (Tasg 2b)
- Arsylwi'r ymgeisydd sy'n rhoi'r cyflwyniad o'u project busnes ar waith ar o leiaf dau achlysur (Tasg 2c) – ***hefyd bydd y 2 arsylwad (o leiaf) yn cael eu cwblhau yn ystod y broses asesu ffurfiannol***
- Darparu tystiolaeth o arsylwadau ymarferol a thystiolaeth o'r amgylchedd gwaith, e.e. defnyddio arsylwadau/tystiolaeth tystion sydd wedi'u cynnwys yn y portffolio. Bydd y dystiolaeth hon yn llywio barn ac arsylwadau cyffredinol yr aseswr allanol.
- Cefnogi ymgeiswyr i ddatblygu portffolio o dystiolaeth sy'n ategu tystiolaeth o ymarfer ar gyfer deilliannau dysgu nas gwelwyd yn y project.
- Rhoi hyfforddiant parhaus i gefnogi'r ymgeisydd wrth i'w broject busnes fynd rhagddo a'i helpu i baratoi ar gyfer y drafodaeth broffesiynol (Tasg 3).

Rhaid i'r aseswr mewnol gysylltu â City & Guilds ar bob un o'r pwyntiau canlynol yn y broses asesu:

- Ar ôl cytuno'n fewnol ar gynllun project busnes yr ymgeisydd; bydd angen i'r aseswr mewnol gyflwyno'r cynllun hwn i City & Guilds i'w adolygu a'i gymeradwyo.
- Ar ôl arsylwi ar ymarfer yr ymgeisydd ar ddau achlysur, cytuno ar ddyddiad i'r aseswr allanol arsylwi ymarfer yr ymgeisydd; bydd hyn yn digwydd i arsylwi gweithgaredd wrth i'r project gael ei weithredu.
- Ar ôl cwblhau Tasgau 1 a 2; bydd yr aseswr mewnol yn cydlynu ac yn adolygu holl dystiolaeth yr ymgeisydd ac yn ei chyflwyno i City & Guilds i'r aseswr allanol ei hadolygu.

Ar ôl cyflwyno'r dystiolaeth ar gyfer Tasgau 1 a 2; bydd yr aseswr mewnol yn cytuno ar ddyddiad ar gyfer y drafodaeth broffesiynol (Tasg 3) gyda City & Guilds a'r aseswr allanol.

Rhaid i ganolfannau sicrhau bod ganddyn nhw strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol ysgrifenedig.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dulliau sicrhau ansawdd mewnol yn:

- cynnal cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr o ran defnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennaeth y cymhwyster a/neu'r asesiad
- effeithlon ac yn gost effeithiol

Rhaid i unrhyw ofynion sicrhau ansawdd mewnol fodloni'r polisïau a'r arweiniad a amlinellir yng nghanllawiau'r Consortiwm i ganolfannau. Gellir gweld manylion y dogfennau canllaw hyn yn y Llawlyfr Gweinyddu (Cyflwyniad i weithio gyda City & Guilds a CBAC) sydd ar gael ar wefan y Consortiwm yn **www.dysguiechydagofal.cymru.**

**Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol –** bydd yn cefnogi ymweliad cychwynnol â'r ganolfan fel rhan o broses gymeradwyo cymwysterau'r corff dyfarnu, gan sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith yn y ganolfan.

**Aseswr Arweiniol City & Guilds –** bydd yn gyfrifol am samplu a safoni'r dyfarniadau asesu a bennir gan yr aseswyr allanol.



# Gweithgaredd 2: Adolygu'r Pecyn Asesu



Cwestiynau?



# Gwerthuso'r Digwyddiad



Diolch